**Bara Saim**

Estyn y badell, caead yn dynn,
Mami'n mynd i ffrio iti rwan hyn.
Ond gei di fwy na hynny'n siwr,
Mami am wneud coffi wedi berwi'r dŵr.

**Babi Mami'n hoffi cael braster, braster.**
**Babi Mami'n hoffi cael bara saim.**
**Babi Mami'n hoffi cael braster, braster.**
**Babi Mami'n hoffi cael bara saim.**

Gorwedd mae'r plantos, gorwedd yn gaeth,
Dau mor wael a'r un arall yn waeth.
Draw ddaeth y meddyg a dwedodd fel hyn,
'Llwyth o fara saim bwytwch fel y myn'.

Wedi 'rhen blantos, gwael yn eu gwlâu,
Glywed be' bu'r meddyg yn caniatáu.
Neidio i'r awyr a dawns a chân,
Sgipio'n ffri wedi gwirioni'n lan.

Mynd am y gegin, mynd am y plwm,
Llenwi mhocedau nes eu bod yn drwm.
Dwyn y badell, dwyn y plwm,
Dwyn y ferch a'm mhocedau'n drwm.

Daliwyd fi da'r badell, daliwyd fi da'r plwm,
Daliwyd fi da'r bara efo'r merch ynghlwm.
Doler am y badell a doler am y plwm,
Chwe mis dan glo er i mi dalu'r swm.